


amgueddfa genedlaethol caerdydd
national museum cardiff

# llyfr gweithgaredd yr orielau hanes natur

Ewch ar daith o amgylch yr Amgueddfa i weld anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw mewn gwahanol lefydd (cynefinoedd fydd gwyddonwyr yn galw'r rhain)

## Yw e'n real?



*Roedd rhai planhigion ac anifeiliaid yn yr orielau yn arfer bod yn fyw, pethau real ydyn nhw. Allwn ni ddim dangos y gwrthrych real bob tro felly byddwn ni'n creu model. Pa rai sy'n fodelau a pha rai sy'n real?*

Cerddwch o amgylch yr orielau **Hanes Natur** i gwblhau'r gweithgareddau.

Enw

amgueddfa cymru
national museum wales


Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Arianwyd y llyfr gweithgaredd hwn gan roddion ymwelwyr.

# glan y môr

**Dechreuwch ar lan y môr wrth brif fynedfa'r orielau Hanes Natur Is.**


## Mi wela i...



Dyma luniau rhannau o anifeiliaid sydd i'w gweld ar lan y môr ac yn y pwll.

Pa ran sy'n perthyn i ba anifail?

**Cliw:** Edrychwch yn uchel ac yn isel!













Beth am feddwl am syniadau 'Mi wela i' eich hun?

# coetir

**Ewch ymlaen i'r gofod oriel nesaf.**

Coetir yw cartref pob un o'r anifeiliaid o'ch blaen chi.

Allwch chi weld y gwahaniaeth rhwng yr arddangosfa goetir a'r ffotograffau yma?

▶ Rhowch gylch o amgylch unrhyw wahaniaeth.









# coetir – coed

**Edrychwch yn y casys arddangos o amgylch yr oriel Coetir.**

Gallwch chi adnabod coeden drwy edrych yn ofalus ar ei dail. Allwch chi weld y bwrdd cyffwrdd gyferbyn â'r arddangosfa ffwng?

Teimlwch y rhisgl a siâp y dail.



- Tynnwch luniau o'r dail welwch chi yma:

**Derw**

**Ffawydd**

**Pîn**

# bywyd yn y môr



**Ewch i fyny'r grisiau i'r orielau Hanes Natur Uwch. Ewch drwy'r drws ac i'r oriel Bywyd yn y Môr.**

Bydd gwyddonwyr yn rhoi planhigion ac anifeiliaid mewn grwpiau. Mae'r goeden deulu forol yn dangos sut mae'r grwpiau gwahanol yn perthyn – ym marn gwyddonwyr.



- Allwch chi weld dau anifail neu blanhigyn o bob grŵp?

**Arthropoda**

1) ______________________

2) ______________________

**Chordata**

1) ______________________

2) ______________________



**Annelida**


1) ______________________

2) ______________________

**Rhodophyta**

1) ______________________

2) ______________________




**Cliw:** Edrychwch ar liw y labeli! Mae gan anifeiliaid yn yr un grwpiau labeli o'r un lliw!

# morfil

**Allwch chi weld y sgerbwd morfil yng nghefn yr oriel?**

Dychmygwch eich bod chi'n nofio gyda'r Morfil Cefngrwm. Tynnwch lun o chi'ch hun ar bwys y sgerbwd. Fyddech chi'n dalach na'i benglog?






Sgerbwd Morfil Cefngrwm ifanc yw hwn. Gall morfil maint llawn dyfu yn 19m o hyd! Mae hyn mor hir a dwy fws!

# môr-grwban

**Mae'r môr-grwban ar bwys y morfil.**

Math o ymlusgiaid hynafol yw môr-grwbanod.

- Defnyddiwch y paneli arddangos i lenwi'r llythrennau coll a chanfod enw'r 7 math (rhywogaeth) o fôr-grwban.

Môr-grwbanod:

L L _ _ R _ I _ _

_ W _ _ D D

P E N D E W _ E _ _

_ E _ _ E _

_ E _ N _ _ L _ T

G _ _ L _ _ B _ G

O _ I _ E R _ D _ E Y



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Dyma'r Môr-grwban Lledraidd mwyaf sydd wedi'i gofnodi yn y byd!

# cipolwg – tu ôl i'r llenni

**Ewch i'r Oriel Cipolwg y tu ôl i'r oriel Coetir.**

Mae gwyddonwyr yn yr Amgueddfa yn gweithio tu ôl i'r llenni i edrych yn fanylach ar fyd natur. Mae'n nhw'n darganfod pethau newydd ac yn cadw gwahanol anifeiliaid a phlanhigion.

- Edrychwch ar yr arddangosiadau yn oriel Cipolwg a chynllunio eich taith maes eich hun. Beth fyddech chi'n ei astudio? Pa offer fyddech chi'n eu defnyddio? Dyluniwch arddangosiad o'ch gwaith ar y dudalen hon: